## ATODLEN 1

Rheoliad 3(1)

### YR WYBODAETH SYDD I'W CHYNNWYS YN Y DATGANIAD O DDIBEN

**1.** Nodau ac amcanion yr awdurdod lleol mewn perthynas â'r gwasanaeth mabwysiadu.

**2.** Enw a chyfeiriad y rheolwr.

**3.** Cymwysterau a phrofiad perthnasol y rheolwr.

**4.** Nifer y staff sy'n cael eu cyflogi gan yr awdurdod at ddibenion gwasanaeth mabwysiadu'r awdurdod, eu cymwysterau a'u profiad perthnasol.

**5.** Strwythur trefniadol y gwasanaeth mabwysiadu.

**6.** System sydd wedi'i sefydlu i fonitro a gwerthuso'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau a ddarparwyd gan yr awdurdod yn effeithiol a bod ansawdd y gwasanaeth mabwysiadu o safon briodol.

**7.** Y gweithdrefnau ar gyfer recriwtio, paratoi, asesu, cymeradwyo a chefnogi darpar rieni mabwysiadol.

**8.** Crynodeb o'r weithdrefn gwyno a sefydlwyd yn unol ag adran 26 o Ddeddf Plant 1989 (**1**) a Gorchymyn Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol (Gweithdrefn Gwyno) 1990(**2**).

**9.** Cyfeiriad a Rhif ffôn swyddfa briodol y Cynulliad Cenedlaethol.

(**1**) 1989 p.41. Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Plant) 1991 (O.S.1991/894 fel y'u diwygiwyd gan O.S.1991/2033, O.S.1993/3069 ac O.S.2001/2874) yw'r rheoliadau cyfredol.

(**2**) O.S.1990/2244.